# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gwaharddiad ar gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol*

## 2 Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae cynnyrch plastig untro wedi ei wahardd—

(a) os yw'n gynnyrch a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen, a

(b) os nad yw unrhyw esemptiad mewn cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw yn gymwys mewn cysylltiad â'r cynnyrch hwnnw.

(2) Yn y Ddeddf hon cyfeirir at gynnyrch sy'n dod o fewn is-adran (1) fel "cynnyrch plastig untro gwaharddedig".

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch—

(a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon;

(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Adran 2.